

*John*

# MARWNAD,

ER COFFADWRIAETH AM

Y PARCH. WILLIAM JENKINS,

Diweddar Weinidog yr Efengyl ymblith y

**BEDYDDWYR,**

YN Y DOLAU, SIR FAESYFED.

*Yr hwn (wedi iddo fod oddeutu 13 o Flynyddoedd yn llafurus a llwyddiannus yn y Weinidogaeth, a chwedi "ymdrech deg," a chadw "y ffydd,") a orphenodd ei yrfa mewn llawn sicrwydd o heddwch a Duw trwy huno yn yr Angau ;*

HYDREF 28, 1842, YN 37 OED.

"Y mae efe wedi marw yn llefaru etto."—PAUL.

"A'r doethion a ddysgleiriant fel dysgleirdeb y ffurfafen, a'r rhai a droant lawer i gyfiawnder, a fyddant fel y sêr byth ac yn dragywydd."—DANIEL.

"Leaves have their time to fall,  
And flowers to wither at the North wind's breath ;  
And stars to set—but all,  
Thou hast all seasons for thine own, O death !

HEMANS.

*A gyfansoddiwyd*

GAN J. LEWIS, (EIDDIL GOMER.)

LLANDILO:

ARGRAFFWYD GAN T. JAMES.

1843.

MARWNAD, &c.

---

1. BETH yw'r newydd sydd trwy'r gwledydd,  
Beth yw'r galar dwys a'r braw,  
Sy'n meddiannu pob rhyw raddau,  
Hwyr â borau yma â thraw;  
Och, hên angau llym ei gleddau,  
Brenin dychryniadau yw,  
Gelyn chwerw holl ddynolryw,  
I bawb ydyw 'mhlith y byw.
2. Pwy all ddyrnad yn ei galon,  
Loesau chwerwon angau du,  
Lled a dyfnder yr Iorddonen,  
Ond y sawl aeth trwyddi hi,  
O'r fath dorf sydd wedi blaenu  
O bob graddau, llwyth ac iaith,  
Rhoddir ninnau oll yn fuan,  
Yn y graian—lety llaith.
3. Ni arbedir gan yr angau,  
Neb mewn urddas nac mewn bri,  
Rhaid i'r brenin fel cardotyn  
Fyn'd i'r dyffryn tywyll du;  
Rhaid i weinidogion ffyddlon,  
Iesu tirion ado'i sedd,  
Rhaid i bawb yn ddiwahaniaeth  
Fyn'd yn 'sglyfaeth pryfed bedd.

4. William Jenkins er ein galar,  
 Aeth i'r fyddar ddaear ddu,  
 Oddiwrth wedd ei briod hawddgar,  
 Ca'dd ei ysgar gydmar cu \* ;  
 Oddiwrth luaws o berth'nasau  
 Aeth yn ddiau, do, o'r lle,  
 Y bu'n ddefnyddiol am flynyddau,  
 Sef y Dolau, ei anwyl dre'.
5. Deg â thair o flwyddi meithion,  
 Y bu'n porthi Seion wiw,  
 Trwy bregethu Iesu'n geidwad,  
 Wrthddrych gwiwfad gwir Fab Duw,  
 O mor ddiwyd y llafuriodd,  
 Er dwyn lluoedd at y Tad,  
 O' gaethiwed Babel greulon,  
 I gael coron Nef yn rhad.
6. Nid oedd tywydd na dim arall  
 I'n brawd hygall coeliwch hyn,  
 Fyth yn rhwystro iddo deithio  
 Dros ei Athro Iesu gwyn ;  
 Tua chyfarfodydd misol,  
 Neu chwarterol mewn rhyw le,  
 Hefyd yn ein cymanfaoedd,  
 Rhyfedd fel yr ymdrechodd E'.
7. Hynod fel y gwnai ddarlunio,  
 Gyflwr dyn trwy bechod cas,  
 Deddf y Duwdod arno'n gwgu,  
 Am ei wthio o'r byd i ma's,

\* Nid oedd ond ychydig er pan briododd ein brawd ymadaw-  
 edig, ond erbyn ei fod wedi rhoddi llam i'r stad briodasawl, dyna  
 angau yn torri yr undeb, galarns yw meddwl peth fel hyn, gyda  
 phriodoldeb gellir dweyd—"Pa beth yw dyn i feddwl am dano."

A chyfiawnder pur yn gwaeddi,  
 (O herwydd tori deddfau Duw),  
 "Gan farw, ti a fyddi farw,"  
 Euog heddyw, ni chai fyw.

8. Yna'r dagrau heilltion dreiglai,  
 Dros y gruddiau'n fuan iawn,  
 Ei wrandawyr welai'n eglur,  
 Eu bod yn droseddwy'r llawn;  
 Dim yn awr ond llid y Duwdod,  
 Lawr i ddyfod arnynt hwy,  
 Dim ond fflamiau ac och'neidiau,  
 Iddynt hwythau fyddai mwy.
9. Wedi iddo ddangos natur  
 Y ddeddf gywir iddynt oll,  
 Drygedd pechod ynghyd a'i hylldod,  
 Yna eu bod 'nawr ar goll;  
 Hedai'n fuan tua Beth'lem,  
 Gethsemane, ac i'r groes,  
 Dygai'r ceidwad 'nawr i'r amlwg,  
 Idd eu golwg rhag mawr loes.
10. Dywedai'n ebrwydd, er mae'n haeddiant  
 Yw bod dan ei soriant ef,  
 Cym'rwch gysur, fe arbedir  
 Y pechadur gadw'i lef;  
 Am drugaredd trwy fawr rinwedd,  
 Gwaed yr Iesu ceinwedd eu,  
 Y mae bywyd, cred yn unig,  
 Gobaith gwynfyd sydd i chwi.
11. O mor hyfryd byddai'n traethu,  
 Ynghylch golud Iesu mawr,  
 Llawnder grâs i ddyn colledig,  
 Archolledig ar y llawr;

Iechawdwriaeth gyflawn helaeth,  
 Doniau odiaeth perffaith pur,  
 Duw a dyn yn ymgysfardod,  
 Trwy y cymmod mwya'n wir.

12. Mewn deheurwydd gwnai amddiffyn  
 Ordinhadau'n brenin gwiw,  
 E ddatguddiau dwyll resymau,  
 Cyfeiliornadau o bob rhyw ;  
 Egwyddorion Llywydd Seion,  
 Geiriau glwysion nef y nef,  
 A bregethid â gyhoeddid,  
 Ac a ddysgid ganddo ef.

13. Nid rhyw seren wibiog ydoedd,  
 Yn ffurfafen gyhoedd Crist,  
 Ond sefydlog gan ddysgleirio,  
 Er goleuo adyn trist ;  
 Crist a'i angau bob amserau,  
 Fyddai ei bregethau ef,  
 Neb ond Crist gyhoeddai'n geidwad,  
 I'r ymddifad dan y Nef.

14. Galar mawr a hiraeth calon,  
 Dan ein dwyfron heddyw sydd,  
 Pan feddylion fod gweddillion,  
 Ein brawd ffyddlon yn y pridd,  
 O'r fath golled sydd o'i golli,  
 Tristwch galar ar bob llaw,  
 Eglwys Crist sydd yn galaru,  
 Am ei roddi'n rhych y rhaw.

15. O na buasai i ti angau,  
 Droï dy saethau at ryw un,  
 Yn lle taro un mor ddawnus,  
 Ac mor fedrus a'n brawd cun ;

Mor ddefnyddiol, mor ymdrechgar,  
 Tra bu ar y ddaear hon,  
 Llawn rhinweddau cymwynasau,  
 Oedd yn ddiau ein brawd llon.

16. Os mae colled oedd marwolaeth,  
 Y dyn odiaeth hynod hwn,  
 I laweroedd yma heddyw,  
 Iddo ef mae'n elw gwn;  
 Y mae ganddo etifeddiaeth  
 Werthfawr, helaeth odiaeth iawn,  
 Telyn auraidd er hyfrydwch,  
 Gwir ddedwyddwch perffaith llawn.

17. William anwyl dywed imi,  
 Faint yw tegwch Iesu'th ffrind,  
 Beth yw rhif y dorf ddysgleirwch,  
 I blith ba rai y cefaist fyn'd,  
 Beth yw ardderchogrwydd gwynfa,  
 Lle mae trigfa'r duwiol hâd,  
 Beth yw gwerth yr holl drysorau,  
 Gefaist tithau gan dy dad.

18. Dywed rywbeth am y ffynon,  
 Sydd yn golchi'r duon rai,  
 Ac am hyfryd wysg cyfiawnder,  
 Guddiodd lawer yn ddiau;  
 Beth yw gwerth y goron auraidd,  
 Ynghyd a'r palmwydd sy'n dy law,  
 Beth yw'r gân ddiddarfod hono,  
 Yn y wlad sy'r ochor draw.

19. 'Rwyn dych'mygu gwel'd y teulu,  
 Oll yn gweni arnat ti,  
 Pan y dringaist trwy'r uchelder,  
 Mewn i blith y seinber lu;

Gan roesawi yn galonog,  
 Un fu'n enwog yn ei ddydd,  
 I gydwlleda 'mhlith y dyrfa,  
 Sydd yn ngwynfa, gwlad y dydd.

20. William Jenkins wyt ti'n adwaen,  
 Y gwroniaid aeth o'th fla'n,  
 Joseph Harries, J. P. Davies,  
 Breeze â Hering fechgyn glân,  
 Jones Drefnewydd, Christmas enwog,  
 Evans Maesyberllan gynt,  
 Saunders Merthyr, Titus Lewis,  
 Fu'n llafurus, 'nawr nid y'nt.

21. Ti gei weled dy gyfeillion,  
 Oll yn glau ar Sion fryn,  
 Hefyd rai fu'n cydlafurio,  
 A thi yma yn y glyn;  
 Ti gei hefyd wel'd dy briod,  
 Hawddgar, serchog, hynaws fwyn,  
 Gyda'r cor dysgleirwych hynny,  
 Sy'n pêrganu yn ddigwyn.

22. Boreu braf sy'n mron a gwawrio,  
 I ddihuno teulu'r bedd,  
 Adgyfodant oll yn union,  
 Pan y rhoddo'r udgorn lêf;  
 Tithau frawd ar ddelw Iesu,  
 Cei dy godi o lwch y llawr,  
 Wedi hynny cei ddysgleirio  
 Yn oes oesoedd fel y wawr.

23. Ffarwel, ffarwel anwyl William,  
 Gyfaill dinam hyd y dydd,  
 Pan y cwrddwn draw ar Seion,  
 Yn mhlith etifeddion ffydd,

Yno ni gawn ganu'r Anthem,  
 Yn yr hen Gaersalem fâd,  
 Bloeddio "iddo Ef boed moliant,  
 A'r gogoniant am y gwa'd."

24. Arglwydd grasol gwna ni'n barod,  
 Cyn del dyrnod Angau du,  
 Fel bo'i ninau gael groesawiad,  
 Mewn i'r Ddinas wiwfad fry;  
 Gwlad heb drallod, gwlad heb bechod,  
 Gwlad heb nychdod, poen na chlwyl,  
 Gwlad 'nol cwrdd o fewn ei muriau,  
 Nad oes eisiau 'madel mwy.

---

O'r Doleu aeth y delyn,—welir mwy  
 Ein hoff William Jenkin,  
 Hunodd, distawodd y dyn  
 Brafas—mae'n fwyd i bryfyn.

O fachau pob afiechyd,—drwy angau  
 Y dringodd i'r bywyd,  
 Yn olau i'w anwylyd,  
 E' gana fawl—gwyn ei fyd.

A llaw gadarn y llwyr godir—ei lwch  
 O loches marwoldir;  
 Ac yna ef a unir,  
 A theulu'n por—tylwyth pur.

---

*D.S.—Ni chaniateir i neb Argraffu na Chyhoeddi y  
 Farwnad hon mewn un modd.*